# Gwiriwr Allanol

# SGILIAU HANFODOL CYMRU
# Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol

## PROFFIL Y RÔL

**Pwrpas:**

Mae CBAC yn penodi Gwirwyr Allanol ar gyfer pob un o'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru sy'n rhan o'r Gyfres Sgiliau Hanfodol Cymru.

Rydym yn derbyn ceisiadau am Wirwyr Allanol ar gyfer y cymhwyster Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol.

Mae'r Gwirwyr Allanol yn gyfrifol am benderfyniadau o ran samplu asesiadau a gwirio mewnol, yn ogystal â chefnogi eu canolfannau ym mhob agwedd ar gyflwyno'r cymhwyster.
Bydd Gwirwyr Allanol yn cydweithio'n agos â'r Uwch Wiriwr a Thîm Sgiliau Hanfodol Cymru CBAC.

**Cyfrifoldebau:**

Fel Gwiriwr Allanol i CBAC, bydd angen i chi gynnal perthnasoedd gwaith effeithiol rhwng ein canolfannau a swyddfa CBAC, cynllunio a monitro gweithgareddau sicrhau ansawdd yn unol â gofynion ein cymwysterau. Mae'r rôl yn cynnig profiad heriol a gwerthfawr ac mae'n gyfle gwych i chi ddefnyddio eich arbenigedd asesu a diwydiant.

Byddwch yn:

- cytuno, ar y cyd â Thîm Sgiliau Hanfodol Cymru CBAC, ar gynllun ymweliad ar gyfer pob canolfan a ddyrannwyd
- cynnal ymweliadau datblygu, cymeradwyo a gwirio
- cyfrannu at broses CBAC o wneud penderfyniadau ar faterion yn ymwneud â chymeradwyo canolfannau
- rhoi cyngor a chefnogaeth
- ymweld â chanolfannau i gynnal proses gwirio mewnol ar gyfer cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru penodol
- ysgrifennu adroddiadau gwirio llawn gwybodaeth wedi'u strwythuro'n dda sy'n cynnwys unrhyw bwyntiau datblygu neu weithredu y cytunwyd arnynt â'r ganolfan
- cyfeirio unrhyw faterion a nodwyd yn ystod y broses wirio i dîm Sgiliau Hanfodol Cymru CBAC, os nodwyd rhai o gwbl
- rhannu arfer da
- cyfrannu at y gwaith o ddatblygu/ysgrifennu drafft o Dasgau dan Reolaeth ar gyfer y cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru penodol

**Profiad/cymwysterau angenrheidiol**

- profiad asesu ac addysgu perthnasol
- y gallu i weithio'n dda o dan bwysau

- sgiliau cyfathrebu, ysgrifenedig, llafar, TG a rhyngbersonol rhagorol
- y gallu i gadw at derfynau amser

I gael gwybod mwy am y rôl, cysylltwch â Naomi Davies ar naomi.davies@wjec.co.uk.

Y dyddiad cau ar gyfer yr hysbyseb hwn yw 29 Mawrth 2024.

**Sut i wneud cais**:

Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac nad ydych yn gweithio i CBAC ar hyn o bryd, ewch i https://appointees.wjec.co.uk/ a chlicio ar 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.

**Os ydych chi'n gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, mewngofnodwch i'ch cyfrif Porth Rheoli Penodedigion a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar y dudalen gartref. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu rôl **Gwiriwr Allanol – Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol, Cyfres Sgiliau Hanfodol Cymru (CBAC/Eduqas)** ar y tab 'maes pwnc', a llenwch feysydd eraill y cais.

Os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch wrth lenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â:-

Rob Reynolds
rob.reynolds@cbac.co.uk
02920 265 050